



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Strategaeth Gwaith leuenctid Genedlaethol Cymru 2014–2018

Helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial a byw bywydau  
bodlon

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



# Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol Cymru 2014–2018

- Cynulleidfa** Sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuencid gan gynnwys gwasanaethau ieuencid statudol a gwirfoddol a phobl ifanc 11–25 oed.
- Trosolwg** Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer sefydliadau gwaith ieuencid ar gyfer y pedair blynedd nesaf ac mae'n adeiladu ar ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 18 Mehefin 2013 ac 16 Medi 2013.
- Mae'r strategaeth yn cydnabod gwerth a rôl gwaith ieuencid mynediad agored; mae'n hyrwyddo cysylltiad cryfach rhwng gwaith ieuencid ac addysg ffurfiol; mae'n nodi'r angen am gydweithio agosach rhwng mudiadau gwaith ieuencid statudol a gwirfoddol; ac mae'n nodi'r angen i gryfhau'n sylweddol y sylfaen dystiolaeth ar effaith gwaith ieuencid ledled Cymru. Bydd angen i Lywodraeth Cymru, mudiadau gwirfoddol cenedlaethol a lleol, yn ogystal ac awdurdodau lleol, gydweithio er mwyn gweithredu'r camau a nodwyd a datblygu gwaith ieuencid.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Os oes gennych gwestiynau am y ddogfen hon, anfonwch nhw i:  
Y Gangen Cymorth a Chanllawiau Ieuencid  
Yr Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

# Cynnwys

<b>Rhagair y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>
<b>Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a gwydnwch</b>	<b>9</b>
<b>Atebolrwydd, canlyniadau a datblygu</b>	<b>14</b>
<b>Ariannu gwaith ieuenctid yng Nghymru</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad: Model ymgysylltu pum haen</b>	<b>21</b>

## Rhagair y Gweinidog



Mae gan waith ieuenctid o safon uchel rôl hollbwysig i'w chwarae o ran helpu llawer o bobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn. Drwy ddulliau addysgol ffurfiol ac anffurfiol, mae arfer gwaith ieuenctid effeithiol yn meithrin gallu a gwydnwch pobl ifanc a gall newid bywydau pobl ifanc er gwell. Drwy gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid mae pobl ifanc yn meithrin hyder a chymhwysedd, yn datblygu hunanhyder ac yn cael cyfle i bennu disgwyliadau a dyheadau uchel iddynt eu hunain.

Mae angen i arfer gwaith ieuenctid gael ei ystyried yn wasanaeth strategol ledled Cymru, yn hytrach nag agwedd ar wasanaeth hamdden neu'n wir yn wasanaeth dewis olaf. Drwy'r cyfeiriad a bennir o fewn y strategaeth hon a'r camau gweithredu sy'n helpu i'w gweithredu, rydym am gynyddu gwerth a chodi statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth a phroffesiwn. Rydym am weld darpariaeth gwaith ieuenctid yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cau'r blwch o ran cyflawniad addysgol rhwng y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol a lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Wrth gyflwyno'r strategaeth hon hoffem dynnu sylw at bedwar canlyniad y mae'n rhaid barnu a yw'r strategaeth wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus yn eu herbyn. Y canlyniad cyntaf yw bod pobl ifanc ledled Cymru yn parhau i allu manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol sy'n ehangu gorwelion, yn herio eu ffordd o feddwl ac yn datblygu eu sgiliau. Mae darpariaeth mynediad agored yn cynnig amgylchedd diogel lle y gall pobl ifanc ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid a all eu helpu a'u cefnogi wrth iddynt newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Gwyddom fod llawer o bobl ifanc yn rhoi gwerth mawr ar wasanaethau mynediad agored oherwydd parhad y cymorth y maent yn ei gynnig o fewn cymunedau. Wrth i ni symud ymlaen, mae'n hanfodol bwysig bod darpariaeth mynediad agored yn cael ei defnyddio i gysylltu pobl ifanc yn effeithiol â chymorth mwy penodol neu arbenigol os bydd hynny'n briodol. Er mwyn cyflawni hyn mae angen i ddarparwyr statudol a gwirfoddol wella eu trefniadau cydweithredu, gan sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael yr effaith fwyaf posibl a chynnig darpariaeth gydlynol o safon uchel i bobl ifanc.

Yr ail ganlyniad yr hoffem ei weld yw atgyfnerthu'r gydberthynas strategol rhwng sefydliadau gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol yn genedlaethol. Mae hyn yn gofyn am ymgorffori gwaith ieuenctid wedi'i dargedu yn y ffordd y mae partneriaid yn gweithio i helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant prif ffrwd. Rydym yn pryderu nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud o sefydliadau gwaith ieuenctid ledled Cymru er mwyn ceisio cyflawni'r canlyniadau a'r dyheadau sydd gennym ar gyfer pobl ifanc. Ers gormod o amser, mae cyfraniad gwaith ieuenctid i nodau a chanlyniadau strategol wedi'i ystyried yn rhywbeth ymylol. Dangoswyd bod ymyriadau gwaith ieuenctid yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysg ffurfiol, ymddygiad, presenoldeb a dilyniant drwy gamau pontio allweddol. Felly, credwn y gall arfer gwaith ieuenctid wedi'i rymuso ac wedi'i ymgorffori ddangos sut mae'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at fywydau pobl ifanc yng Nghymru ac y dylid disgwyl iddo wneud hynny.

Mae'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* newydd yn cynnig cyfle i gysylltu cyfraniad sefydliadau gwaith ieuenctid yn well â gwasanaethau cymorth ehangach. Ledled Cymru, rydym yn disgwyl i'r broses o roi'r strategaeth hon ar waith ategu'r gwaith o gyflwyno'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* ac, wrth wneud hynny, helpu i gynnig darpariaeth fwy cyson ac integredig i bobl ifanc. Ar y sail honno, rydym yn disgwyl i'r strategaeth hon helpu i sicrhau lleihad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant boed hynny o ganlyniad i ymyriadau a chymorth addysg neu iechyd neu ymyriadau a chymorth cysylltiedig eraill.

Y trydydd canlyniad y mae'r strategaeth hon yn ceisio ei gyflawni yw sicrhau bod y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir i bobl ifanc gan sefydliadau gwaith ieuenctid yn y sector statudol a gwirfoddol yn fwy cydgysylltiedig a chyson. Mae cwmpas y sector gwirfoddol yn llawer ehangach na'r sector statudol. Rydym am weld sefydliadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol yn cydweithio er mwyn datblygu, cyflawni a chynnig cyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel i bobl ifanc. Byddwn yn defnyddio cyfnod y strategaeth hon i fynd ati i hyrwyddo gweithgareddau sy'n ategu'r gwaith o feithrin gallu, gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng darparwyr gwasanaethau gwirfoddol a statudol.

Y pedwerydd canlyniad y mae'n rhaid i'r strategaeth hon ei gyflawni yw sail dystiolaeth gadarn sy'n nodi canlyniadau ac effaith darpariaeth gwaith ieuenctid. Credwn fod hyn yn angenrheidiol er mwyn ategu safle strategol y sector a llywio penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn y dyfodol. At hynny, mae angen tystiolaeth i lywio trafodaethau ynghylch materion megis cyflwyno canllawiau statudol a'r modelau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni gwaith ieuenctid. Rydym yn disgwyl i'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid newydd chwarae rôl allweddol o ran helpu i gyflwyno fframwaith canlyniadau a chyflwyno adroddiadau ar sut mae'r strategaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i rhoi ar waith ar lawr gwlad.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymgysylltu a rhannu barn ar ddatblygiad y strategaeth hon. Mae a wnelo'r strategaeth hon â gwireddu cyfraniad gwaith ieuenctid fel gwasanaeth strategol a all wneud cyfraniad sylweddol i fywydau a dyfodol pobl ifanc ledled Cymru ac economi Cymru. Mewn partneriaeth â phobl ifanc, credwn y gellir gwireddu'r canlyniadau y mae'r strategaeth hon yn ceisio eu cyflawni drwy gamau gweithredu rhesymol gan y llywodraeth ar bob lefel, cefnogaeth sefydliadau gwaith ieuenctid ac ymrwymiad partneriaid ehangach sy'n gweithio gyda phobl ifanc.



**Huw Lewis AC**  
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**



**Ken Skates AC**  
**Dirprwy Weinidog Sgiliau a**  
**Thechnoleg**

## Cyflwyniad

Mae gan waith ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i helpu pawb i gyflawni eu potensial, trechu tlodi, lleihau anghydraddoldeb, gwella cyrhaeddiad addysgol a lefelau cyflogaeth, gwella lles economaidd a chymdeithasol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau eraill a chynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn cymdeithas.

Nod y strategaeth hon yw rhoi cyfeiriad i'r rhai sy'n cynllunio ac yn cyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid ac mae'n disodli Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Genedlaethol Cymru; pobl ifanc, gwaith ieuenctid, gwasanaeth ieuenctid (2007)<sup>1</sup>. Mae'n cefnogi'r weledigaeth yn Ymestyn Hawliau<sup>2</sup> i godi ein disgwyliadau a'n dyheadau ar gyfer pob person ifanc a chau'r bwlch rhwng y rhai mwyaf breintiedig a'r rhai lleiaf breintiedig.

Wrth wneud hynny, mae'r strategaeth yn cefnogi'r agenda Ewropeaidd ehangach – Strategaeth Ieuenctid yr UE (2010-2018)<sup>3</sup> – sydd â'r nod o gynnig mwy o gyfleoedd a chyfleoedd cyfartal i bobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur. Mae hefyd yn cefnogi nod agenda 2020 Cyngor Ewrop i integreiddio pob person ifanc yn llwyddiannus mewn cymdeithas, gan sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar addysg o safon a'u galluogi i gyfrannu at ddatblygiad cymdeithas.

Drwy roi'r strategaeth hon ar waith disgwylir i bartneriaid cyflawni ledled Cymru ddatblygu cynnig mwy cyson o ran gwaith ieuenctid o safon uchel i bobl ifanc, gan alluogi sefydliadau gwaith ieuenctid i weithredu fel partneriaid strategol a werthfawrogi. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen cydnabod proffesiynoldeb gweithwyr ieuenctid a'r effaith a gânt o fewn y system addysgol ehangach a chydabod eu gwasanaethau a'u harbenigedd a'u defnyddio'n effeithiol i helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl ifanc.

Cynigir darpariaeth gwaith ieuenctid drwy wasanaethau ieuenctid. Mae gwaith ieuenctid yn rhan annatod o wasanaethau cymorth ieuenctid sy'n ceisio sicrhau bod pob person ifanc rhwng 11 a 25 oed yn cael y gwasanaethau, y cymorth a'r profiadau sydd eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu potensial. Yng Nghymru mae'r

---

<sup>1</sup> Ceir y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru (2007) yn <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/national-youth-strategy-wales?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> Nododd *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru* Cyfarwyddyd a Chanllawiau Gorffennaf 2002, sail statudol a chyfarwyddiadau i'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru am y tro cyntaf. Nododd, yng nghyd-destun darpariaeth gwaith ieuenctid, fod 'addysg anffurfiol' yn cyfeirio at broses o ddysgu sy'n cynnwys pobl ifanc yn ymgysylltu'n wirfoddol â gwasanaethau sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad personol a chymdeithasol.

<sup>3</sup> Adroddiad Strategaeth Ieuenctid yr UE (2010–18) *An EU Strategy for Youth – Investing and Empowering*.

gwasanaeth ieuencid yn hawl sylfaenol, sy'n agored i bob person ifanc. Drwy Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuencid, sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu gymryd rhan yn y gwaith o'u darparu.

Mae gwaith ieuencid yn darparu ac yn hwyluso amgylchedd lle y gall pobl ifanc ymlacio, cael hwyl a theimlo eu bod yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Drwy gyfleoedd a phrofiadau addysgol heb fod yn ffurfiol<sup>4</sup> ac anffurfiol<sup>5</sup> mae dulliau gwaith ieuencid yn herio pobl ifanc i wella eu datblygiad personol, cymdeithasol a gwleidyddol. Drwy gymryd rhan mewn gwaith ieuencid gall pobl ifanc ddysgu cymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau a chael eu helpu i adnabod a gwrthsefyll y dylanwadau niweidiol sy'n effeithio arnynt.

Mae arfer gwaith ieuencid yn ymrwymedig i ffordd gyfranogol o weithio sy'n annog pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a bod yn bartneriaid cyfartal yn eu prosesau dysgu a gwneud penderfyniadau ac sy'n eu galluogi i wneud hynny. Fel hyn mae gwaith ieuencid yn ceisio annog pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gweithredol a chymryd rhan mewn cymdeithas, dull gweithredu sy'n cefnogi egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae *Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*<sup>6</sup> yn nodi'r egwyddorion allweddol sy'n sail i waith ieuencid yng Nghymru. Mae'n rhoi trosolwg o natur a dibenion arfer gwaith ieuencid a'r dulliau cyflawni a ddefnyddir yn y maes. Cyflawnir gwaith ieuencid drwy'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol a thrwy amrywiaeth o leoliadau a dulliau gwaith ieuencid. Mae darpariaeth gwaith ieuencid yn agored i bob person ifanc o fewn yr ystod oedran benodol 11–25.

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid (2012) yn nodi mai prif ddiben gwaith ieuencid yw:

. . . galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol i'w galluogi i feithrin eu llais a chwarae rhan mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn.

Cyflëir cwmpas y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuencid gan y Map Dibenion Allweddol a Swyddogaethol. Mae'r map swyddogaethol yn disgrifio'r swyddogaethau a'r prif weithgareddau cysylltiedig a gyflawnir gan y rhai sy'n gweithio ym maes gwaith ieuencid.

---

<sup>4</sup> Addysg heb fod yn ffurfiol: unrhyw weithgaredd addysgol a drefnwyd y tu allan i'r system ffurfiol sefydledig – p'un a yw'n gweithredu ar wahân neu fel nodwedd bwysig o ryw weithgaredd ehangach.

<sup>5</sup> Addysg anffurfiol: y broses gydol oes lle mae pob unigolyn yn cael agweddau, gwerthoedd, sgiliau a gwybodaeth o brofiadau bob dydd a'r dylanwadau ac adnoddau addysgiadol yn ei amgylchedd.

<sup>6</sup> *Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* (CLILC, 2013) [www.wlga.gov.uk/addysg-materion-diwylliannol-a-hamdden-publications/gwaith-ieuencid-yng-nghymru-egwyddorion-a-dibenion](http://www.wlga.gov.uk/addysg-materion-diwylliannol-a-hamdden-publications/gwaith-ieuencid-yng-nghymru-egwyddorion-a-dibenion).



## Arfer gwaith ieuenctid yng Nghymru

Mae'r nodweddion canlynol yn hanfodol i arfer gwaith ieuenctid ac maent yn helpu i wahaniaethu rhwng arfer gwaith ieuenctid a lle mae'n well disgrifio prosesau darparu gweithgareddau neu wasanaethau fel rhan o'r gwasanaeth cymorth ieuenctid ehangach.

**Ymgysylltu gwirfoddol:** un o'r agweddau sylfaenol ar arfer gwaith ieuenctid yw y dylai pobl ifanc ddewis ymgysylltu a manteisio ar y ddarpariaeth pan fydd ei eisiau neu ei angen arnynt. Mae gweithwyr ieuenctid yn ennyn ymddiriedaeth ac yn cynnal perthynas wirfoddol â phobl ifanc.

**Dull addysgiadol heb fod yn ffurfiol/anffurfiol:** mae addysg anffurfiol a heb fod yn ffurfiol i gefnogi dysgu a datblygiad ehangach pobl ifanc wrth wraidd gwaith ieuenctid. Dylai'r cyfleoedd hyn adlewyrchu anghenion pobl ifanc a dangos dull cynhwysol o weithredu. Er enghraifft, dylai gweithgareddau gynnog cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol. Mae dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol yn cefnogi dysgu ehangach, datblygiad a chyfranogiad mewn cymdeithas. Ategir hyn gan bum piler gwaith ieuenctid yng Nghymru<sup>7</sup> grymuso, addysgiadol, cyfranogol, cynhwysol a mynegiannol.

**Cyfranogiad pobl ifanc:** mae arfer gwaith ieuenctid yn ymrwymedig i ffordd gyfranogol o weithio sy'n annog pobl ifanc i rannu cyfrifoldeb a bod yn bartneriaid cyfartal yn y prosesau dysgu a gwneud penderfyniadau ac sy'n eu galluogi i wneud hynny. Mae gwaith ieuenctid yn cydnabod bod gan bobl ifanc hawliau ac mae'n gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau ond mae hefyd yn cydnabod bod cyfrifoldebau a gofynion yn cael eu gosod ar bobl ifanc. Mae arfer gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddeall eu cyfrifoldebau. Mae'r dull gweithredu hwn yn helpu pobl ifanc i fynd i'r afael â'r materion personol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'n cynnwys ac yn grymuso pobl ifanc, gan eu helpu i ddatblygu a meithrin eu gallu a'u gwydnwch i ddod yn fwy annibynnol wrth newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.

**Canlyniadau i bobl ifanc:** mae llawer o ganlyniadau y gall pobl ifanc eu cyflawni wrth gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid. Gellir nodi'r canlyniadau disgwylidig i bobl ifanc o dan dair thema gyffredinol:

- Cyfranogiad gweithredol:
  - mae pobl ifanc yn mwynhau ac yn cyflawni
  - mae pobl ifanc yn gwneud cyfraniad cadarnhaol
  - mae gan bobl ifanc lais

---

<sup>7</sup> Gwaith ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion

- mae gan bobl ifanc hawl i leisio eu barn a disgwyl i'r farn honno gael ei hystyried
  - mae gan bobl ifanc gwell lles
  - mae pobl ifanc yn datblygu/gwella eu sgiliau ymarferol
  - mae pobl ifanc yn dysgu rheoli risg.
- Datblygu sgiliau ehangach:
    - adeiladu tîm
    - cyfathrebu
    - datrys problemau
    - gwneud penderfyniadau
    - dylanwadu ar eraill.
  - Lefel uwch o gymhwysedd emosiynol:
    - lefelau uwch o hyder a hunangymhelliant
    - lefelau uwch o hunanymwybyddiaeth, cymhelliant a hunan-barch
    - y gallu i ddatblygu a chynnal cydberthnasau
    - dangos empathi tuag at bobl eraill ac ystyriaeth ohonynt.

## Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a gwydnwch

Dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru a chymau gweithredu partneriaid a sefydliadau cyflawni allweddol gefnogi'r canlyniadau strategol canlynol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid ar gael i bob person ifanc yng Nghymru ac yn gweithredu fel gwasanaeth ataliol effeithiol, gan helpu pobl ifanc i ymgysylltu a datblygu ym maes addysg a hyfforddiant er mwyn eu paratoi ar gyfer byd gwaith ac, yn fwy cyffredinol, fywyd fel oedolion.
- Defnyddir darpariaeth mynediad agored yn effeithiol i ymgysylltu â phobl ifanc y mae angen cymorth mwy penodol arnynt a'u cyfeirio at y cymorth priodol.
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn rhyngweithio'n effeithiol â darparwyr addysg ffurfiol er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a lleihad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Caiff darpariaeth gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol ei chysoni a'i chyflwyno i bobl ifanc mewn cynnig cydlynol.
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n strategol at Strategaeth y Gymraeg; *Iaith Fyw* ac yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol.
- Mae darpariaeth gwaith ieuenctid yn dangos sut mae'n cefnogi blaenoriaethau trawslywodraethol (gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, addysg, iechyd a lles, trechu tlodi).

## Helpu i ddarparu gwaith ieuenctid mynediad agored

Mae pob person ifanc yn haeddu cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth o weithgareddau sy'n diwallu ei anghenion datblygu drwy sicrhau bod ganddo le diogel i ymlacio a chael hwyl. Yn strategol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored o safon dda a'r rôl y gall ei chwarae o ran ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi. Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl, ar adegau, mai'r gwaith ieuenctid mynediad agored a gynigir yw'r unig ffordd o gysylltu â rhai pobl ifanc a'u helpu i ailymgysylltu â meysydd megis eu haddysg. At hynny, mae gan ddarpariaeth mynediad agored rôl strategol i'w chwarae drwy gynnig system i nodi pobl ifanc a allai fod yn agored i niwed a darparu cymorth ar ffurf ymyrraeth gynnar.

Mae darpariaeth gwaith ieuenctid mynediad agored yn helpu pobl ifanc i fynegi eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, gall gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a meithrin eu hyder wrth wneud hynny mewn lleoliad anffurfiol. Felly, dylid ystyried yr angen i helpu i ddatblygu'r iaith Gymraeg a darparu ar gyfer

dysgwyr Cymraeg wrth gynllunio a darparu gwaith ieuenctid, p'un a yw'n ddarpariaeth mynediad agored neu'n ddarpariaeth wedi'i thargeddu.

## **Cefnogi darpariaeth gwaith ieuenctid wedi'i thargeddu**

Mae gan ddarpariaeth gwaith ieuenctid wedi'i thargeddu gyfraniad pwysig i'w wneud o ran helpu pobl ifanc i lwyddo ym maes addysg, cadw'n ddiogel, cadw'n iach, chwarae rôl gadarnhaol yn eu cymunedau a gwneud dewisiadau bywyd hyddysg. Er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc mae'n hollbwysig bod darpariaeth gwaith ieuenctid wedi'i thargeddu yn cael ei datblygu a'i darparu mewn ffyrdd sy'n cefnogi cysylltiadau cryf ac effeithlon â mathau eraill o ddarpariaeth, rhwydweithiau cymorth ehangach a phartneriaethau perthnasol.

Dangoswyd bod gwaith ieuenctid yn llwyddo i helpu pobl ifanc i symud i mewn i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Argymhellodd adroddiad Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru; *Symud Ymlaen: Y Sylfeini ar gyfer Twf* (Mai 2010) y dylai'r gwasanaeth ieuenctid chwarae rôl fwy o lawer o ran mynd i'r afael ag ymddieithrio. Mae cynllun gweithredu ein *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* yn cyfleu'n glir y disgwyliad y dylai partneriaid cymorth a phartneriaid cyflawni gydweithio er mwyn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc. Mae'r fframwaith yn rhoi rôl arwain strategol allweddol i awdurdodau lleol ac yn ei gwneud yn ofynnol i randdeiliaid ddatblygu cynllun effeithiol ar gyfer darparu cymorth cydgysylltiedig yn lleol.

Un o'r dyheadau allweddol ar gyfer rhoi'r fframwaith ar waith yw y creir rhwydwaith o 'weithwyr arweiniol' a fydd yn sicrhau parhad o ran cymorth a chysylltiad i bobl ifanc sy'n agored i niwed ac yn eu helpu i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth ehangach a'u defnyddio. Mae'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* yn disgrifio sut y gall swyddogaethau gweithwyr arweiniol gan eu cyflawni gan amrywiaeth eang o unigolion mewn gwahanol fathau o sefydliadau. Mae gan weithwyr ieuenctid y sgiliau i chwarae rôl y gweithiwr arweiniol ar gyfer llawer o'r bobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth arnynt i'w hatal rhag ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant neu i'w helpu i ailymgysylltu, ac maent mewn sefyllfa dda i chwarae'r rôl honno.

Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed caiff y broses o bennu rôl y gweithiwr arweiniol ei llywio drwy gyfeirio at y model pum haen fel y'i nodir yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid* (gweler yr Atodiad ar dudalen 21). Er y gall gweithwyr ieuenctid gynorthwyo pobl ifanc ar unrhyw adeg, mae'r model yn nodi'r cymorth a roddir gan weithwyr ieuenctid sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo pobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 17 oed, sy'n hysbys i Gyrfa Cymru, nad ydynt ar gael eto ar gyfer addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (Haen 2) a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o adael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (Haen 4). Mae gan bob gweithiwr ieuenctid, gan gynnwys gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig, rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu'r

rhai nad ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru (Haen 1). Hefyd, mae'n bosibl bod gweithwyr ieuencid mewn sefyllfa dda i gyflawni rôl y gweithiwr arweiniol ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed pan ystyrir bod risg uchel neu ganolig y byddant yn ymddieithrio rhag addysg, ond nad ydynt yn cael eu cynorthwyo gan drefniadau a arweinir gan Teuluoedd yn Gyntaf.

## **Cefnogi rhyngwyneb strategol rhwng gwaith ieuencid ac addysg ffurfiol**

Gall y gydberthynas rhwng gweithwyr ieuencid a phobl ifanc fod yn wahanol iawn i'r gydberthynas rhwng pobl ifanc ac athrawon neu bobl eraill o fewn y sefydliad addysg ffurfiol. Gall arfer gwaith ieuencid effeithiol feithrin cydberthnasau pan allai fod yn anodd eu creu fel arall ac, wrth wneud hynny, gall ddarparu pont effeithiol rhwng addysg ffurfiol ac addysg heb fod yn ffurfiol. Canfu gwaith ymchwil diweddar a wnaed gan yr Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol<sup>8</sup>, er bod camddealltwriaeth eang o rôl gwaith ieuencid a'r hyn y gall ei gynnig, fod gwaith ieuencid yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig ag addysg ffurfiol, gan gynnwys ymddygiad, presenoldeb a phontio. Nododd yr ymchwil sut mae gwaith ieuencid yn arbennig o fuddiol wrth gyflwyno addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (PSHE) a chyflwyno addysg rhyw a chydberthynas (SRE).

Mae'n amlwg y gall arfer gwaith ieuencid fod yn effeithiol iawn o ran cefnogi deilliannau dysgu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol a bod cydweithio agosach rhwng ysgolion, colegau a sefydliadau gwaith ieuencid yn dod â manteision sylweddol i bobl ifanc. Felly, er mwyn gwella deilliannau pobl ifanc, mae'n rhaid datblygu'r cysylltiadau rhwng darpariaeth addysg ffurfiol a darpariaeth gwaith ieuencid ymhellach a'u cysoni'n well.

Ar hyn o bryd, mae gwaith partneriaeth rhwng sefydliadau gwaith ieuencid ac ysgolion yn amrywio'n fawr. Er mwyn llywio'r cyfeiriad ac arweiniad yn y dyfodol bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o effaith arfer gwaith ieuencid mewn ysgolion erbyn 2017. Mater i'r adolygiad a'r cyngor yw penderfynu ai'r mynegiant gorau o'r cydweithio agosach hwn yw gweithiwr ieuencid sy'n gysylltiedig â phob ysgol neu ryw drefniant arall.

## **Cefnogi cydweithio effeithiol rhwng sefydliadau gwaith ieuencid gwirfoddol a statudol**

Er mwyn cefnogi safle strategol y sector, mae angen i sefydliadau gwaith ieuencid statudol a gwirfoddol gydweithio er mwyn cynnig darpariaeth mynediad agored a darpariaeth fwy penodol i bobl ifanc. Dylid pennu'r cydbwysedd priodol rhwng

---

<sup>8</sup> YR ASIANTAETH IEUENCTID GENEDLAETHOL (2013): Commission into the Role of Youth Work in Formal Education.

darpariaeth mynediad agored a darpariaeth wedi'i thargeddu yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc yn lleol, tystiolaeth o'r effaith a'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau partner.

Dylai awdurdodau lleol gydweithio'n gadarnhaol â sefydliadau gwirfoddol er mwyn sicrhau bod darpariaeth gwaith ieuenctid yn diwallu anghenion lleol a bod y defnydd gorau yn cael ei wneud o'r adnoddau sydd ar gael. Yn lleol, yr her yw i'r sectorau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol (gan gynnwys sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol, cenedlaethol a gwasanaethau ieuenctid mewn lifrai) gydweithio, gan ddatblygu dulliau priodol o rannu gwybodaeth a helpu i sicrhau y gall y naill sector a'r llall ddarparu gwasanaethau o safon uchel. Dylai cydberthnasau cryfach arwain at lai o ddyblygu a gwasanaethau cadarnach a gynlluniwyd ar sail anghenion pobl ifanc ac sy'n diwallu'r anghenion hynny. Fel mynegiant o waith partneriaeth gwirioneddol gellir cyfleu gwaith ieuenctid a gynigir i bobl ifanc ar sail ardal mewn perthynas â Chynlluniau Integredig Sengl Awdurdodau Lleol.

Er mwyn rhoi cymorth a chynrychioli llais sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuenctid gwirfoddol lleol a chenedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r corff mantell, sef Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, ac mae'n disgwyl i'r corff hwn hyrwyddo cyfraniad darparwyr gwaith ieuenctid gwirfoddol i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid a chynghori* ar y cyfraniad hwnnw.

Fel rhan o'r gwaith ehangach o gysoni a chydgyssylltu gweithgarwch rhwng partneriaid, dros gyfnod y strategaeth hon, rydym am weld camau sylweddol yn cael eu cymryd o ran sut y caiff cyfraniad sefydliadau ieuenctid mewn lifrai ei gysoni â chyfraniad sefydliadau gwaith ieuenctid. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol roi cyngor ar y ffordd orau o gysoni gweithgareddau a strwythurau presennol â chyfraniad unigryw sefydliadau gwaith ieuenctid mewn lifrai yng Nghymru.

Caiff y camau gweithredu canlynol eu datblygu er mwyn helpu i gyflawni'r nodau a'r canlyniadau strategol a nodwyd uchod.

1. Cwblheir gwerthusiad annibynnol o gwmpas, gwerth ac effaith darpariaeth gwaith ieuenctid, gan gynnwys ei gyfraniad i gyflogadwyedd erbyn mis Ebrill 2017.
2. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cyfraniad darpariaeth gwaith ieuenctid tuag at gyflawni Strategaeth y Gymraeg ac yn gwahodd Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid i ystyried y ffordd orau y gall sefydliadau gwaith ieuenctid gynyddu a datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.
3. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol i ddatblygu cyfraniad y sector gwaith ieuenctid

gwirfoddol at y gwaith o gyflwyno'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*.

4. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau arfer da i weithwyr arweiniol erbyn mis Medi 2014.
5. Er mwyn cefnogi rôl y gweithiwr arweiniol caiff pecyn dysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol ei ddatblygu erbyn mis Mawrth 2015.
6. Cyflwynir gwerthusiad annibynnol o effaith gwaith ieuenctid mewn ysgolion ac enghreifftiau o arfer gorau eu cyflwyno ym mis Rhagfyr 2015.
7. Bydd y Grŵp Cyfeirio Gwasanaethau Ieuenctid yn llywio adolygiad annibynnol o arfer gwaith ieuenctid effeithiol mewn ysgolion erbyn mis Ebrill 2016 [gweler cam gweithredu 12].
8. Dylid datblygu cynnig gwaith ieuenctid ar y cyd drwy Gynlluniau Integredig Sengl Awdurdodau Lleol sy'n dwyn ynghyd y ddarpariaeth a gynigir drwy sefydliadau gwaith ieuenctid statudol a gwirfoddol.

## **Atebolrwydd, canlyniadau a datblygu**

Dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru a champau gweithredu partneriaid a sefydliadau cyflawni allweddol helpu i gyflawni'r nodau strategol canlynol ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid a chanlyniadau'r ddarpariaeth honno:

- Cyflwyno Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, sy'n darparu sail gadarn ar gyfer atebolrwydd, meincnodi a chanlyniadau.
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir i bobl ifanc ledled Cymru.
- Cynyddu cyfran y gweithwyr ieuenctid sydd â chymwysterau proffesiynol.
- Sefydlu fforwm i roi cyngor i Weinidogion ar roi'r strategaeth ar waith, datblygu trafodaethau strategol ar gyflawni ac adolygu tystiolaeth o effaith a chwmpas darpariaeth gwaith ieuenctid yn genedlaethol.
- Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gael achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn eu helpu i ddatblygu a gwella eu cyflogadwyedd.
- Mwy o bobl ifanc yn cael mynediad i addysg heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol gwaith ieuenctid.

## **Atgyfnerthu'r sail dystiolaeth**

Mae sail dystiolaeth atgyfnerthedig a chadarn ar effaith gwaith ieuenctid yn hanfodol i lywio'r gwaith o ddatblygu cynnig gwaith ieuenctid cenedlaethol mwy cyson o safon uchel ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae cyfoeth o dystiolaeth anecdotaidd sy'n dangos cyfraniad gwaith ieuenctid a chanlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc. Fodd bynnag, mae angen gwneud llawer mwy i ddangos cyfraniad gwaith ieuenctid yn systematig ac yn gadarn. Mae'r dystiolaeth hon yn hanfodol er mwyn i'r rhai sy'n gyfrifol am waith ieuenctid (yn y cyd-destun statudol a'r cyd-destun gwirfoddol) gystadlu am adnoddau yn llwyddiannus. Hefyd, mae gan dystiolaeth rôl bwysig i'w chwarae o ran pwysleisio dilysrwydd a hygyrdedd gwaith ieuenctid i sefydliadau partner.

Er mwyn gwella'r sail dystiolaeth caiff Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei ddatblygu a'i gyflwyno er mwyn nodi ac adlewyrchu'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu gan arfer gwaith ieuenctid yn y cyd-destun statudol a'r cyd-destun gwirfoddol a dangos gwahaniaethau yn y modd y darperir gwasanaethau a chwmpas gwasanaethau. Yn strategol, bydd y sail dystiolaeth a grëir drwy'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn llywio'r adolygiad arfaethedig o arfer gwaith ieuenctid a nodwyd yn 'Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a gwydnwch' (tudalen 9).

Er mwyn cefnogi'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ehangach caiff yr Archwiliad Gwasanaethau Ieuenctid Cenedlaethol ei ddatblygu'n Archwiliad Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol, a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbynnau gwaith



ieuenctid ledled Cymru. Gan edrych i'r dyfodol, bydd yr archwiliad yn helpu i roi darlun mwy cyson o'r ddarpariaeth ledled Cymru a gellir ei ddefnyddio yn fwy effeithiol i feincnodi'r ddarpariaeth o wasanaethau mewn gwahanol rannau o Gymru.

## **Adnabod ansawdd**

Dylai sefydliadau gwaith ieuenctid sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig gwaith ieuenctid o safon uchel ymyriadau sy'n addas at y diben ar gyfer y grwpiau o bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. Anaml y mae ymyriadau da yn esgor ar ganlyniadau gwael. Er mwyn cefnogi'r agenda ansawdd bydd Nod Ansawdd ar gyfer sefydliadau Gwaith Ieuenctid yn helpu i ddiffinio darpariaeth gwaith ieuenctid o safon uchel yn glir.

Un o ddibenion allweddol y Nod Ansawdd fydd herio gwasanaethau, gwella safon darpariaeth gwaith ieuenctid, helpu i ddatblygu cynnig gwaith ieuenctid mwy cyson ledled Cymru i bobl ifanc a meithrin ymddiriedaeth rhwng gwasanaethau.

## **Gwerthfawrogi a chefnogi'r gweithlu**

Er mwyn gweithredu fel gwasanaeth strategol credadwy, mae'n rhaid i ddarparwyr gwaith ieuenctid ddangos lefelau uchel o broffesiynoldeb. At hynny, mae pobl ifanc, yn gywir ddigon, yn disgwyl cael eu cynorthwyo gan ymarferwyr gwaith ieuenctid cymwys a medrus. Mae gwaith ieuenctid yn broffesiwn medrus ac, yn strategol, credwn fod yn rhaid i ni barhau i ymdrechu i sicrhau gweithlu gwaith ieuenctid sydd â'r cymwysterau priodol.

Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae angen datblygu llwybr cydlynol, clir i gymwysterau a fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sy'n ymwneud â darpariaeth gwaith ieuenctid. Mae angen i'r fath fframwaith sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â chyflawni a rheoli gwaith ieuenctid yn cael cymorth i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol, y wybodaeth a'r cymwyseddau sy'n berthnasol i'w rolau. Mae angen sefydlu llwybrau dysgu a datblygu i weithwyr ieuenctid hefyd sy'n ystyried y rôl sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan wirfoddolwyr a'u hymrwymiad.

Ym mis Gorffennaf 2013 cyflwynwyd y Bil Addysg (Cymru) gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Bydd y Bil yn cyflwyno system gofrestru gadarn, newydd ar gyfer y gweithlu addysg cyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys gweithwyr ieuenctid yn y dyfodol gan gydnabod y rôl allweddol y maent yn ei chwarae o ran helpu pobl ifanc i barhau i ymgysylltu â'u haddysg a'u hyfforddiant ffurfiol a datblygu.

## **Arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a chyngor**

Bydd sicrhau bod darpariaeth gwaith ieuencid mewn sefyllfa i gyflawni'r nodau a nodir yn y strategaeth hon yn gofyn am arweinyddiaeth a herio ar bob lefel. Mae'n amlwg bod y strategaeth hon yn ceisio sicrhau safle mwy canolog a manteisio ar ddull gweithredu a chyfraniad unigryw darpariaeth gwaith ieuencid tuag at gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer addysg a thu hwnt. Er mwyn hwyluso deialog strategol sydd wedi'i strwythuro'n dda rhwng Gweinidogion a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r sector, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp cyfeirio o randdeiliaid allweddol a fydd yn gyfrifol am adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion a rhoi cyngor iddynt ar arfer gwaith ieuencid. Bydd y grŵp hwn yn rhoi cyngor i'r Gweinidog ar faterion a datblygiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o roi'r strategaeth hon ar waith ac yn cynnig fforwm beirniadol i drafod materion megis a ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu canllawiau statudol ar gyfer gwaith ieuencid.

## **Arfer ac arloesi effeithiol**

Gall arfer gwaith da gefnogi nifer fawr o agendâu'r Llywodraeth, gan gynnwys iechyd a lles. Ceir llawer o enghreifftiau o waith ieuencid o safon dda yn cael ei gyflawni mewn amrywiaeth o leoliadau. Felly, mae gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a rhannu arfer da, gan ddefnyddio tystiolaeth o bob rhan o'r DU a thu hwnt, yn rôl strategol y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae.

## **Cydnabod cyflawniadau pobl ifanc**

Mae dathlu a chydnabod cyflawniad yn bwysig ac mae'n hanfodol sicrhau y bydd darpariaeth gwaith ieuencid yn parhau i gydnabod datblygiad pobl ifanc drwy achredu a dyfarniadau lleol<sup>9</sup> a chenedlaethol<sup>10</sup>. Gall cyfleoedd achredu ym maes gwaith ieuencid alluogi pobl ifanc i weld eu cyflawniadau a meithrin hyder personol a hunan-barch. Gall cynnig y cyfle hwn i bobl ifanc fod yn bwysig er mwyn rhoi hyder i bobl ifanc ailgysylltu ag addysg ffurfiol neu symud ymlaen drwy addysg ffurfiol. Gall achrediadau hefyd roi i bobl ifanc dystiolaeth o'r sgiliau y maent wedi'u datblygu y bydd darpar gyflogwyr yn y dyfodol yn rhoi gwerth arnynt. Mae mathau penodol o

---

<sup>9</sup> Dyfarniadau a gydnabyddir yn lleol yw'r rhai a gwblhawyd yn llwyddiannus nad ydynt yn rhan o'r rhaglen genedlaethol ac a asesir yn lleol, er enghraifft: modiwlau unigol yr Adran Addysg (DofE) neu PSD; Gwobrau Mayor's; Tystysgrifau Mewnol; Prifysgol Plant/Pobl Ifanc; a Gwobr John Muir.

<sup>10</sup> Achrediadau a gydnabyddir yn genedlaethol yw'r rhai a gwblhawyd yn llwyddiannus o dan raglenni a gydnabyddir yn genedlaethol ac a gaiff eu hasesu a'u dilysu, er enghraifft: Agored Cymru/Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN); ASDAN; Yr Adran Addysg (DofE); Dyfarniad BEL a Datblygiad Personol a Chymdeithasol (DPCh).

achrediad yn cael eu parchu a'u deall yn arbennig o dda gan gyflogwyr – megis Gwobrau Dug Caeredin – am eu bod cynnig tystiolaeth o sgiliau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn tîm, gwneud penderfyniadau a chyfathrebu.

Am y rhesymau hyn anogir sefydliadau gwaith ieuenctid i ymestyn cyfleoedd i bobl ifanc ennill achrediau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol. Ni chaiff targed ar gyfer achrediau o ddarpariaeth gwaith ieuenctid ei bennu am y byddai hynny yn debygol o lywio'r broses o ddyrannu adnoddau mewn ffyrdd na fyddent, o bosibl, yn helpu i gyflawni'r canlyniadau strategol ehangach a geisir. Fodd bynnag, drwy'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol, caiff y lefelau o achrediad eu monitro yng nghyd-destun canlyniadau a blaenoriaethau gwasanaeth ehangach.

## **Gwaith ieuenctid rhithwir**

Nid yw pob person ifanc yn union yr un fath. Mae'r defnydd o dechnolegau, o wasanaethau mwy traddodiadol dros y ffôn i fodolau cymorth sy'n seiliedig ar we-sgyrsiau a rhwydweithiau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd newydd i gefnogi pobl ifanc ac ymgysylltu â nhw ac efallai y byddant yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ategu gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb.

Anogir y rhai sy'n comisiynu ac yn cyflwyno darpariaeth gwaith ieuenctid i ystyried sut y gall technoleg greu a chynnal ymgysylltu effeithiol â phobl ifanc. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried a datblygu cyfleoedd a lywir gan dechnoleg gyda phobl ifanc fel rhan o gynnig gwaith ieuenctid cytbwys ac ymatebol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi CLIConline, sef y wefan wybodaeth genedlaethol i bobl ifanc, tan 2016. Yn ystod y cyfnod hwn ystyrir opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth gwybodaeth ieuenctid cenedlaethol yn y dyfodol.

Caiff y camau gweithredu canlynol eu datblygu er mwyn helpu i gyflawni'r nodau a'r canlyniadau strategol a nodwyd uchod.

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ac yn ei roi ar waith erbyn mis Medi 2015. Bydd y fframwaith hwn yn cyd-fynd â fframweithiau canlyniadau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru.
10. Caiff Nod Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid sy'n addas i'r sector gwaith ieuenctid statudol a'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol ei ddatblygu a'i ddarparu erbyn mis Ebrill 2015.
11. Caiff yr Archwiliad Gwasanaethau Ieuenctid Cenedlaethol ei ddatblygu'n Archwiliad Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol ac fe'i defnyddir fel dull o roi darlun cenedlaethol o allbynnau a chanlyniadau gwaith ieuenctid. Byddwn yn parhau i fonitro achrediau cenedlaethol a enillir gan bobl ifanc drwy'r archwiliad hwn.

12. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid gyda chynrychiolaeth o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl ifanc, a fydd yn adrodd yn uniongyrchol i Weinidogion ac yn rhoi cyngor iddynt ar y broses o weithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol. Bydd y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid yn ymgynnull a gofynnir iddo gytuno ar gylch gorchwyl a rhaglen waith dros dro erbyn mis Rhagfyr 2014.
13. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar y trefniant mwyaf priodol ar gyfer cefnogi'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol ar ôl 2016 gyda chymorth a mewnbwn gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid.
14. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar ddarparu rhaglenni gwaith ieuencid mewn ysgolion a chwmpas y rhaglenni hynny gyda chymorth ac allbwn gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid.
15. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar y trefniant mwyaf priodol ar gyfer cefnogi'r sector gwaith ieuencid gwirfoddol ar ôl 2016 gyda chymorth a mewnbwn gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid.
16. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried arfer gwaith ieuencid ledled y DU, yn Ewrop ac yn rhyngwladol gyda chymorth a mewnbwn gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid a'r rhinweddau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â modelau amgen ar gyfer cyflawni a chontractio gwaith ieuencid.
17. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar rinweddau canllawiau statudol ar gyfer gwaith ieuencid, gan adeiladu ar y sail dystiolaeth sy'n deillio o'r Archwiliad a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol gyda chymorth a mewnbwn gan y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid.
18. Bydd y Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuencid yn rhoi cyngor ar y meini prawf ar gyfer gwerthuso effaith gwaith ieuencid.
19. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi arfer da a'i rannu'n effeithiol a datblygu arfer da o ran y strategaeth hon a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.
20. Cynyddu nifer y gweithwyr ieuencid sydd â chymhwyster gwaith ieuencid a gydnabyddir gan y Cydgyngor Trafod Telerau (JNC).
21. Caiff pecyn hyfforddi cydlynol ar gyfer gweithwyr ieuencid ei ddatblygu erbyn 2016.
22. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo a chefnogi hyfforddiant proffesiynol o safon uchel a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gweithwyr ieuencid drwy ETS Cymru.
23. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried cofrestru gweithwyr ieuencid.
24. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod, yn hyrwyddo ac yn dathlu arfer gwaith ieuencid a gweithwyr ieuencid eithriadol ledled Cymru drwy barhau i gefnogi Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuencid yng Nghymru.

## **Ariannu gwaith ieuenctid yng Nghymru**

Caiff y rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sydd ar gael i gefnogi gwaith ieuenctid yng Nghymru ei gweinyddu gan awdurdodau lleol gydag arian a ddyrennir o'r Grant Cynnal Refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn ffrwd ariannu heb ei neilltuo ac, felly, mater i awdurdodau lleol yw penderfynu sut y caiff yr arian hwn ei ddefnyddio er mwyn diwallu eu hanghenion a'u blaenoriaethau lleol orau – gan gynnwys darparu gwasanaethau ieuenctid.

Yn hanesyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth uniongyrchol i nifer o gynlluniau grant y bwriedir iddynt helpu i gyflawni canlyniadau gwaith ieuenctid.

Bydd grantiau sy'n cael cymorth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod ar gael yn ystod oes y strategaeth hon. Ni roddir yr arian ychwanegol hwn i wrthbwyso na disodli arian a ddarperir o'r Grant Cynnal Refeniw, ond dylid ei ddefnyddio i feithrin gallu a hyrwyddo canlyniadau o safon a helpu i ddatblygu darpariaeth fwy cyson i bobl ifanc ledled Cymru.

Caiff diwygiadau i'r gyfres o grantiau a oedd ar gael i gefnogi'r Strategaeth Gwasanaethau Ieuenctid Genedlaethol flaenorol eu cyflwyno a byddant yn cynnwys y canlynol.

### **Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid**

Byddwn yn cynnig grant am gyfnod o bedair blynedd o fis Ebrill 2014, i ddechrau gan ddefnyddio'r un fformiwla ariannu fel y'i cymhwyswyd at y Grant Refeniw blaenorol ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid. Bydd y grant newydd hwn ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi darpariaeth mynediad agored i ddiwallu anghenion lleol a llenwi bylchau a nodir o fewn Cynllun Integredig Sengl yr Awdurdod Lleol; er mwyn helpu i weithredu cynllun gweithredu'r *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid*, gan gynnwys cefnogi a hwyluso cyfraniad y sector gwirfoddol ac er mwyn diwallu anghenion hyfforddi ar gyfer staffio (gan gynnwys y sector gwirfoddol).

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid yn adolygu'r fformiwla gyfredol a ddefnyddir i ddyrannu grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid er mwyn helpu i ddatblygu darpariaeth gyson i bobl ifanc a sicrhau bod adnoddau yn cefnogi cydweithredu effeithiol.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos sut maent yn bwriadu gwario eu dyraniad bob blwyddyn a dangos effaith y grant hwn.

## **Grantiau i sefydliadau gwaith ieuencid gwirfoddol**

Bydd grant cyfredol Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol yn parhau yn ystod 2014/15. O fis Ebrill 2015 bydd grant diwygiedig i Gyrrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol yn agored ar sail gystadleuol i sefydliadau yn lleol ac yn genedlaethol.

Caiff sefydliadau gwaith ieuencid gwirfoddol gyfle i gystadlu am arian craidd drwy grant Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol o fis Ebrill 2015. Bydd meini prawf newydd ar gyfer Grant Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol yn ceisio targedu adnoddau lle mae sefydliadau yn y sefyllfa orau i ddenu buddsoddiad ychwanegol o ffynonellau eraill, gan gynyddu'r adnoddau cyffredinol sydd ar gael i'w buddsoddi mewn darpariaeth gwaith ieuencid a chreu cyfleoedd i fwy o bobl ifanc ledled Cymru.

Mae pobl ifanc wedi dweud eu bod am gael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r ysgol<sup>11</sup> ac maent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod eu cyflawniadau yn cael eu hachredu. Felly, ystyrir sut y gellir defnyddio arian i roi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg, magu hyder a gwella eu rhuglder yn yr iaith a chodi eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg<sup>12</sup> fel rhan o'r gwaith ieuencid a gynigir. At hynny, ystyrir sut y gellir defnyddio arian grant Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol yn y dyfodol er mwyn datblygu canlyniadau achrededig o safon i bobl ifanc.

## **Arian grant i gefnogi Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol**

Mae Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol yn chwarae rôl werthfawr o ran cynrychioli sefydliadau gwaith ieuencid gwirfoddol yn genedlaethol. Er mwyn helpu i gefnogi a hyrwyddo cyfraniad y sector gwirfoddol i'r strategaeth hon ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru parheir i roi arian grant i gefnogi gwaith Cyrff Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol am o leiaf ddwy flynedd, pan gaiff ei adolygu yn unol â'r nod o ddatblygu cymorth i'r sector gwirfoddol ehangach.

## **Cefnogi safonau a'r gweithlu**

Mae'n hanfodol bod hyfforddiant gwaith ieuencid yn bodloni gofynion sylfaenol y proffesiwn ac y bydd yn parhau yn drosglwyddadwy o fewn y DU a thu hwnt. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu ETS Cymru am y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod rhaglenni hyfforddi i weithwyr ieuencid o safon ddigon uchel, eu bod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, y gweithwyr ieuencid eu hunain a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw.

Yn 2014/15 bydd Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau er mwyn datblygu llwybr gweithlu cydlynol i weithwyr ieuencid yng Nghymru.

---

<sup>11</sup> URDD GOBATH CYMRU (2011) Anghenion a Dyheadau Pobl Ifanc o Safbwynt y Gymraeg.

<sup>12</sup> LLYWODRAETH CYMRU (2012) *Iaith fyw: iaith byw*. Strategaeth y Gymraeg 2012-2017.

## Atodiad: Model ymgysylltu pum haen

Y model ymgysylltu pum haen fel y'i nodir yn y *Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid – Cynllun gweithredu*.

Haen	Grŵp cleientiaid	Gweithiwr arweiniol
<b>Haen 5 Pobl Ifanc mewn Addysg Bellach, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (ACH)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.</li> <li>Gweithio neu astudio'n rhan-amser am dros 16 awr.</li> <li>Gwaith gwirfoddol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid ystyrir bod angen gweithiwr arweiniol am fod y person ifanc eisoes wedi ymgysylltu ac nid ystyrir ei fod mewn perygl o ymddieithrio.</li> </ul>
<b>Haen 4 Pobl Ifanc sydd mewn perygl o adael ACH</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y rhai sy'n cymryd rhan mewn llai nag 16 awr o ACH.</li> <li>Y rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio cyn 16 a/neu yr tybiwyd eu bod mewn perygl o beidio â phontio'n llwyddiannus ac sydd bellach mewn AB, yn y chweched dosbarth neu mewn hyfforddiant.</li> <li>Y rhai y mae darparwyr ACH wedi hysbysu Gyrfu Cymru (neu sydd wedi hysbysu Gyrfu Cymru eu hunain) eu bod mewn perygl o adael ACH.</li> </ul>	<p>Mae pennu gweithiwr arweiniol yn dibynnu ar lefel y risg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Risg isel a chanolig – systemau bugeiliol darparwyr a/neu bennu hyfforddwr dysgu yn weithiwr arweiniol.</li> <li>Risg uchel – efallai y pennir gweithiwr arweiniol iddo o naill ai'r Gwasanaeth Ieuencid neu Gyrfu Cymru neu os yw Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â'r achos y Tim o Amgylch y Teulu fydd yn penderfynu pennu gweithiwr arweiniol.</li> </ul>
<b>Haen 3 Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed sy'n hysbys i Gyrfu Cymru</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Wedi ymgysylltu â Gyrfu Cymru a/neu y gwyddys eu bod wrthi'n chwilio am ACH; sydd naill ai'n barod i fynd i mewn i ACH, neu yr asesir bod angen cymorth o ran rheoli gyrfu neu sgiliau cyflogadwyedd arnynt i fynd i mewn i ACH.</li> <li>Dylai'r haen hon hefyd gynnwys y rhai sy'n hysbys i Gyrfu Cymru, sydd wrthi'n chwilio am ACH ond nad oes angen cymorth uwch arnynt gan Gyrfu Cymru h.y. sy'n cael cymorth drwy CW.com, aros am ddyddiad dechrau yn y Coleg ac ati.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodwyd gweithiwr arweiniol ar gyfer yr holl garfan.</li> <li>Bydd Gyrfu Cymru yn darparu'r gweithiwr arweiniol ym mhob achos, bron.</li> </ul>
<b>Haen 2 Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed, sy'n hysbys i Gyrfu Cymru, nad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pobl ifanc nad ydynt ar gael ar gyfer ACH / na allant chwilio am ACH (salwch, gofaluwr ifanc, beichiogrwydd, yn y carchar).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodwyd gweithiwr arweiniol ar gyfer yr holl garfan.</li> <li>Bydd y Gwasanaeth Ieuencid yn darparu'r</li> </ul>

<b>ydynt ar gael ar gyfer ACH</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pobl ifanc â rhwystrau sylweddol neu luosog y mae angen cymorth personol dwys arnynt.</li> </ul>	gweithiwr arweiniol ym mhob achos, bron.
<b>Haen 1 Statws anhysbys ar ôl gadael gwasanaethau Gyrfa Cymru</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pobl ifanc nad ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar ôl i unigolion gael eu nodi cânt eu neilltuo i haen briodol a phennir gweithiwr arweiniol yn unol â hynny.</li> </ul>